# Gosod cymal arleisiol prosthetig cwbl newydd yn yr ên

Awst 2014

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mae gosod cymal prosthetig cwbl newydd yn lle cymal arleisiol yr ên (y cymal rhwng yr ên a'r penglog) yn ddigon diogel ac yn gweithio yn ddigon da i gael ei ddefnyddio yn y GIG.

### Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dylai hyn oll ddigwydd cyn i chi benderfynu a ydych am gael y driniaeth hon ai peidio.

## Eich tîm gofal iechyd

Tîm gofal iechyd sy'n brofiadol mewn problemau gyda chymal arleisiol yr ên ddylai benderfynu pa gleifion ddylai gael cynnig y driniaeth hon. Dim ond llawfeddygon sydd wedi'u hyfforddi'n benodol ac sydd â phrofiad o osod cymal arleisiol prosthetig cwbl newydd yn yr ên a ddylai gyflawni'r llawdriniaeth hon.

Mae NICE yn gofyn i weithwyr iechyd proffesiynol anfon gwybodaeth am bawb a gaiff y driniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt ar ôl hynny i gronfa ddata Cymdeithas Llawfeddygon TMJ Prydain. Mae hyn er mwyn profi diogelwch y driniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio dros amser. Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol ofyn i chi a ellir casglu manylion am eich triniaeth.

## Y cyflwr

Cymal arleisiol yr ên yw'r cymal sydd rhwng yr ên a'r penglog. Gall arthritis, anaf neu broblemau ar ôl llawdriniaeth achosi problemau cymal arleisiol yr ên. Gall symptomau gynnwys poen ac anawsterau wrth agor a chau'r geg, a pheidio â gallu bwyta'n normal.

Fel arfer rhoddir cynnig ar driniaethau nad ydynt yn cynnwys llawdriniaeth i ddechrau. Mae'r rhain yn cynnwys ymlacio'r ên, sblintiau brathu, meddyginiaeth neu bigiad corticosteroid i gymal yr ên. Os nad yw'r triniaethau eraill wedi gweithio, caiff llawdriniaeth ei hystyried.

Mae NICE wedi ystyried gosod cymal arleisiol prosthetig cwbl newydd yn yr ên fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

## Y driniaeth

Mae llawdriniaeth i osod cymal newydd yn opsiwn pan nad yw triniaethau eraill wedi gweithio. Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw ‘gosod cymal arleisiol prosthetig gwbl newydd yn yr ên’. Pan fydd y claf o dan anesthetig cyffredinol, caiff toriad ei wneud o flaen y glust a thu ôl i'r ên isaf, neu oddi tano. Caiff cymal artiffisial newydd ei osod yn lle'r cymal. Weithiau tynnir rhan o'r ên isaf i ganiatáu mwy o symudiad ar ôl y llawdriniaeth.

## Manteision a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynodd fod y driniaeth yn gweithio'n dda a'i bod yn ddigon diogel i'w defnyddio yn y GIG. Roedd y saith astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 3936 o gleifion.

Yn gyffredinol, dangoswyd y manteision canlynol:

- llai o boen
- gwell symudiad yn yr ên a'r gallu i agor y geg yn fwy
- y gallu i fwyta diet llai cyfyngedig, mwy normal
- lleferydd gwell.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion yn yr astudiaethau eu bod yn frwdfrydig, yn hapus neu'n fodlon â'r driniaeth, ac y byddent yn dewis cael y llawdriniaeth eto.

Yn ogystal â hyn, cafodd NICE nifer o sylwadau gan gleifion a oedd yn disgrifio effeithiau manteisiol y driniaeth ar eu bywydau, gan gynnwys y gallu i gyfathrebu yn y gwaith a lles seicolegol gwell.

Dangosodd yr astudiaethau fod y risgiau'n cynnwys:

- gwaedu yn ystod y driniaeth; roedd dau  glaf angen trallwysiad gwaed ac roedd un claf angen rhagor o lawdriniaeth
- gwendid yn nerfau'r wyneb; roedd hyn yn gyflwr dros dro (hyd at 6 mis) i'r rhan fwyaf o bobl
- colli teimlad yn y wefus neu'r tafod
- rhannau o'r cymal yn dod yn rhydd, yn symud, yn torri neu'n mynd yn heintus. Cafodd y rhain eu cofnodi mewn rhwng 1 a 3% o gleifion.

Dywedwyd wrth NICE am risgiau posibl eraill hefyd: newidiadau i'r clyw, niwed i ardal o'r penglog a elwir yn y ffossa creuanol canol, a chwysu ar y bochau (ar ôl bwyta bwyd) a elwir yn syndrom Frey's. Gall cleifion sydd ag alergeddau i fetelau gael adwaith i fathau penodol o brosthesis ac, fel arfer, cynhelir prawf patsh er mwyn dewis pa fath o brosthesis i'w ddefnyddio.

Os hoffech wybod mwy am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllaw ymyriadau NICE yn cynghori'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-0766-3